Dewch i siarad RhCT
Let's talk RCT

# DWEUD EICH DWEUD!

RHONDDA CYNON TAF

# Cŵn yn baeddu a'r rheolau rheoli cŵn mewn mannau cyhoeddus yn RhCT

Rhowch wybod i ni beth yw'ch barn erbyn: **20 GORFFENNAF 2026**

## Sut mae modd i mi gael dweud fy nweud?

GWEFAN: **dewch-i-siarad.rctcbc.gov.uk**
i gael rhagor o wybodaeth neu i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad

E-BOST: **ymgynghori@rctcbc.gov.uk**

FFÔN: **01443 425014**

POST: **Rhadbost RUGK-EZZL-ELBH**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**
**Materion Ymchwil ac Ymgynghori, Swyddfa'r Trydydd Llawr**
**2 Llys Cadwyn PONTYPRIDD CF37 4TH**

## Beth mae'r Cyngor yn dymuno ei wneud?

**Yn 2017 fe wnaethon ni gyflwyno rheolau newydd ar gyfer rheoli cŵn ar dir cyhoeddus yn Rhondda Cynon Taf o dan yr hyn a elwir yn Orchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus (PSPO).**

Ar ôl cynnal ymgynghoriad, diweddarodd y Cyngor y PSPO yn 2020 a 2023. Rhaid adnewyddu'r gorchmynion bob 3 blynedd, felly rydyn ni'n holi am farn preswylwyr cyn gwneud hynny ar 1 Hydref 2026.

## Pam mae'r Cyngor yn gwneud hyn?

**Mae baw ci yn beth annifyr iawn i edrych arno ac mae modd iddo arwain at salwch difrifol mewn pobl o'r enw tocsocariasis. Mae modd atal y clefyd yma os caiff baw ci ei glirio ar unwaith. Mae angen hefyd i rai o'r meysydd chwarae gael eu harchwilio'n eithaf aml ar gyfer baw cŵn cyn bod modd eu defnyddio.**

Serch hynny, er gwaethaf cyflwyno'r Gorchmynion yn 2017 a'r estyniad yn 2020 a 2023, mae nifer fach o berchnogion cŵn sydd ddim yn glanhau ar ôl eu cŵn neu sydd ddim yn eu cadw o dan reolaeth mewn mannau cyhoeddus.

Mae adroddiad gan Cadwch Gymru'n Daclus o'r enw 'An Analysis of Local Environmental Quality in RCT 2022-23' yn dangos bod llai o faw cŵn ar strydoedd RhCT ers cyflwyno'r PSPO yn 2017, o 18% yn 2017 i 8.9% yn 2021-22 a 10.9% yn 2022-23.

Mae'r adroddiad diweddaraf yn dangos gostyngiad cyffredinol yn nifer yr achosion o faw cŵn heb ei godi ond roedd cynnydd bach o'r flwyddyn flaenorol sy'n dangos bod y PSPO wedi arwain at lai o faw cŵn ar strydoedd RhCT ond hefyd yn tynnu sylw at y ffaith ei fod yn parhau i fod yn broblem.

# DWEUD EICH DWEUD!

## Rheolau rheoli cŵn mewn mannau cyhoeddus yn RhCT

## Beth mae hyn yn ei olygu?

**Mae'r rheolau yn y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (PSPO) yn helpu'r Cyngor i sicrhau bod pobl yn cadw eu cŵn dan reolaeth yn Rhondda Cynon Taf.**

Maen nhw'n ein helpu ni i reoli'r pethau niweidiol y gall perchnogion cŵn anghyfrifol eu gwneud ac yn caniatáu i berchnogion cŵn cyfrifol barhau i fynd â'u cŵn am dro heb derfynau diangen.

## Beth yw'r rheolau?

**Roedd y Gorchymyn gwreiddiol yn seiliedig ar y rheolau canlynol yn cael eu gorfodi:**

- **RHAID i berchnogion cŵn...**
  godi baw cŵn ar unwaith a chael gwared ar y baw mewn modd addas.
- **RHAID i berchnogion cŵn... ..**
  gario bagiau, neu ryw ddull addas arall, er mwyn cael gwared ar y baw ar bob adeg.
- **RHAID i berchnogion cŵn...**
  ddilyn cyfarwyddyd Swyddog Awdurdodedig i roi ci ar dennyn.
- **Mae cŵn wedi eu GWAHARDD...**
  o bob ysgol, man chwarae i blant, a chae chwaraeon sydd wedi'i farcio sy'n cael eu cadw a'u cynnal gan y Cyngor a safleoedd Cynghorau Cymuned penodol.
- **RHAID cadw cŵn...**
  ar dennyn ar bob adeg yn yr holl fynwentydd sy'n cael eu cynnal a'u cadw gan y Cyngor.

➜ Mae modd i chi weld rheolau 2023 yma:
**Rheoli Cŵn - Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus 2023 - Rhondda Cynon Taf**
www.rctcbc.gov.uk/CwnynBaedduGorchymynDiogeluMannauCyhoeddus

Rydyn ni'n ceisio'ch barn o ran a ddylid parhau â'r rheolau yma am 3 blynedd arall o 1 Hydref 2026.

## Beth os dydy pobl ddim yn dilyn y rheolau?

**Byddwn ni'n codi dirwy o £100 ar bobl os dydyn nhw ddim yn dilyn y rheolau.**

Dyma'r swm mwyaf o ddirwy caiff y Cyngor ei godi.

## Pa fannau sydd dan sylw?

**Mae'r mannau cyhoeddus sy'n cael eu cynnwys i'w gweld ar nifer o fapiau.**

➜ Cliciwch ar y ddolen isod i weld y rhain:
www.rctcbc.gov.uk/CwnynBaedduGorchymynDiogeluMannauCyhoeddus

## Parc Aberdâr

**Yn ogystal â'r rheolau uchod ceir rheolau ar wahân ar gyfer Parc Cyhoeddus Aberdâr.**

Ym Mharc Aberdâr, rhaid cadw eich ci ar dennyn drwy'r amser.

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

**Ar ôl yr ymgynghoriad yma, byddwn ni'n ysgrifennu adroddiad am yr hyn a ddywedodd pobl.**

Bydd Aelodau Cabinet y Cyngor ac Uwch Swyddogion wedyn yn ystyried hyn ac yn gwneud penderfyniad ynghylch beth ddylai'r rheolau fod ar gyfer y 3 blynedd nesaf.